Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Allerton Lodge**

**Allerton Cottage**
**Naid y March**
**Treffynnon**
**CH8 8LG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Allerton Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Deen Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Awst 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn mwynhau byw yn Allerton Lodge. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn barchus â'i gilydd, gan fynegi eu barn, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r cartref yn gyfforddus ac yn gartrefol a chaiff ystafell wely pob unigolyn ei haddurno yn unol â'i chwaeth bersonol.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel wedi iddynt gael eu fetio'n briodol cyn cael eu cyflogi; cânt eu hyfforddi i gyflawni eu rolau ac maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau ar gyfer arferion diogel. Caiff digon o staff eu cyflogi i sicrhau y caiff y bobl eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt yn y ffordd y dymunant.

Mae adolygiadau rheolaidd o anghenion gofal y bobl, ynghyd â gwiriadau iechyd rheolaidd, yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael gofal da ac yr eir i'r afael â'u materion iechyd yn ddi-oed. Caiff y bobl eu cefnogi i drefnu apwyntiadau iechyd a'u mynychu, ac mae'r bobl sy'n byw yn Allerton Lodge yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth wybodaeth dda am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu. Mae'r bobl yn rhyngweithio'n hawdd ac yn gyfforddus yng nghwmni'r staff gofal a'r tîm rheoli. Cânt eu cynnwys yn llawn yn yr hyn sy'n digwydd yn y cartref a gofynnir am eu barn ar faterion sy'n bwysig iddynt yn rheolaidd.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth o ran y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn Allerton Lodge. Maent yn dewis sut i dreulio eu diwrnod a chyflawni eu harferion dyddiol. Caiff hoff a chas bethau'r bobl eu cofnodi mewn cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau, a chaiff eu dymuniadau eu bodloni a'u hanghenion eu diwallu. Mae'r bobl yn treulio eu diwrnod yn gwneud yr hyn y maent yn dymuno ei wneud gyda'u ffrindiau a'r staff gofal; cânt eu cefnogi i gymdeithasu â ffrindiau a theulu. Caiff y bobl eu trin â pharch, caiff eu safbwyntiau eu gwerthfawrogi, a rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau unigol.

Gofelir am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan weithwyr gofal hyfforddedig, sy'n cefnogi'r bobl i fynychu apwyntiadau iechyd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau addas y cytunwyd arnynt. Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu hadolygu gan yr uwch-aelodau o staff fel y gellir nodi unrhyw newidiadau'n gyflym. Mae'r adolygiadau hyn, ynghyd â gwiriadau iechyd rheolaidd, yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag arferion gwael, camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i'w harwain. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer trafodaethau un i un â'r gweithwyr gofal a'r preswylwyr.

Mae'r llety yn gyfforddus ac yn gartrefol. Mae sawl ardal eistedd ac ystafell fwyta ar wahân, sy'n cynnig digon o le i'r bobl ymlacio a threulio amser ble y dymunant. Gellir cynnal gweithgareddau yn yr ardal awyr agored ddiogel pan fo'n briodol. Ceir ymdeimlad o gartref teulu ac mae'r bobl yn mwynhau byw yma.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt gan fod eu cynlluniau personol yn cael eu cwblhau mewn ymgynghoriad â nhw; cânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gywir a chaiff eu dymuniadau, eu dewisiadau, a'u hanghenion corfforol, meddyliol ac emosiynol eu hystyried yn llawn. Mae'r asesiadau risg yn sicrhau y gall y bobl dreulio eu diwrnod fel y dymunant, yn annibynnol neu gyda lefelau priodol o gymorth. Rhannodd y bobl eu profiadau â ni, gan ddweud wrthym eu bod yn cael gofal da gan dîm gofal parchus sy'n eu cefnogi yn y ffordd y dymunant.

Mae asesiad cyn derbyn, dogfennaeth broffesiynol, ac atgyfeiriadau amserol at weithwyr proffesiynol, yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth priodol. Gwelsom amrywiaeth o weithgareddau y gall y bobl gymryd rhan ynddynt, a dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn eu mwynhau.

Dywedodd y bobl wrthym, "*Care staff are very kind…they take their time with me and treat me with respect"* a bod y staff gofal yn hyfryd. Dywedodd un perthynas wrthym, "*The care staff have been marvellous with my relative, I can't believe the difference in my relative in…that the home has made to them, they are so lifted and happy."* Dywedodd hefyd, *"My relative gets the care and support they need 100%... I feel quite blessed that I have found the home."* Gwelsom fod y bobl yn siarad yn rhwydd ac yn gyfforddus yng nghwmni'r gweithwyr gofal, gan fynegi eu barn yn rhydd. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a pharchus rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn Allerton Lodge.

Caiff llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl ei hybu gan staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol pan fo angen. Gwelsom gofnodion o apwyntiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol, a meddygon teulu. Caiff cymeriant maethol ei gofnodi, a chaiff pwysau'r bobl ei fonitro er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi'n gyflym.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth mewn amgylchedd sydd â digon o le i'r bobl symud o gwmpas yn rhydd ac i wneud dewisiadau am ble maent am dreulio eu diwrnod. Mae lolfa fawr â chadeiriau breichiau cyfforddus, a llawer o olau naturiol. Mae digon o fyrddau a chadeiriau i bawb fwyta gyda'i gilydd os byddant yn dymuno gwneud hynny yn yr ystafell fwyta. Caiff yr holl ystafelloedd eu haddurno mewn ffordd gartrefol a chyfforddus, gan hybu ymdeimlad o deulu ac o berthyn gyda lluniau a phethau o bwys sydd o ddiddordeb cyffredinol. Mae'r dodrefn mewn cyflwr da ac mae gan y darparwr gynlluniau parhaus ar waith ar gyfer gwneud gwelliannau pellach, fel gosod carpedi newydd.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi mesurau ar waith i nodi a lliniaru risgiau ac i gynnal a chadw cyfleusterau a chyfarpar pwysig. Gwelsom gofnodion i ddangos y caiff gwiriadau cynnal a chadw a diogelwch eu cwblhau ar gyfer dŵr, cyfarpar tân, y boeler a gosodiadau trydanol. Mae'r staff gofal wedi cael eu hyfforddi i wella diogelwch megis diogelwch tân, cymorth cyntaf, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch a symud a chodi a chario. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer y cartref a'r unigolion ar waith.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr gyfres gynhwysfawr o drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r uwch-reolwyr a'r darparwr yn cynnal nifer o archwiliadau ar gyfer y safle ac ar gyfer y systemau a'r arferion er mwyn gwirio a sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn gwella'n barhaus. Gwelsom bolisïau a chofnodion i gadarnhau bod archwiliadau ar gyfer amrywiaeth o agweddau ar y gweithrediadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cynhelir adolygiad sicrhau ansawdd manwl bob chwe mis yn unol â'r rheoliadau sy'n ystyried safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal adolygiadau cynhwysfawr o'r gwasanaeth bob tri mis yn briodol.

Gall y bobl fod yn hyderus bod yr uwch-reolwyr yn cymryd materion o ddifrif. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt a gallent roi gwybod am unrhyw faterion iddynt ac yr ymdrinnir â nhw yn briodol. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod y rheolwyr bob amser o gwmpas er mwyn siarad â nhw, eu bod yn deall eu hanghenion neu anghenion eu perthnasau a'u bod yn cymryd unrhyw faterion o ddifrif ac yn mynd i'r afael â nhw yn briodol.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel, a dim ond ar ôl i wiriadau gael eu cynnal y cânt eu cyflogi er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl. Darperir hyfforddiant i wneud yn siŵr bod gan y bobl yr arbenigedd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau'n ddiogel. Cawsom olwg ar ffeiliau'r staff sy'n dangos bod y prosesau recriwtio'n gadarn ac mae'r ddogfennaeth yn dangos bod y gweithwyr gofal wedi ymgymryd â'r gwiriadau a'r hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl. Mae'r rotas yn dangos bod digon o staff yn cael eu cyflogi er mwyn sicrhau y caiff anghenion y bobl eu diwallu yn y ffordd y dymunant. Ar adeg yr arolygiad, roedd cydgysylltydd gweithgareddau annibynnol wedi'i gyflogi wrth i'r darparwr chwilio am aelod parhaol o staff ar gyfer y rôl. Mae'r staff gofal yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr a chânt gyfleoedd rheolaidd i gwrdd a thrafod eu hymarfer. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol ac agored lle roedd y bobl yn cael eu hannog i ymateb a mynegi eu dymuniadau. Mae'n amlwg bod y bobl yn gyfarwydd â'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi a'u bod yn gyfforddus yn eu cwmni.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/06/2024